

yr Athro

Dechrau Darllen... Dechrau Byw

Ydych chi'n cofio Mic y mochyn tew, Bet yr iâr, Mot y ci, y lori goch? Go brin y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn cofio'r cymeriadau hyn, ond mae'n dra thebygol eich bod yn gyfarwydd â Sali Mali, Jaci Soch a'r Pry Bach Tew. Bu'r gyfres Darllen Difyr (cyfres oedd yn cynnwys y cymeriadau Mic, Bet, Mot) a chyfres Sali Mali yn gyfresi poblogaidd ar hyd y blynyddoedd i feithrin sgiliau darllen plant yng Nghymru. Faint ohonom sy'n ddiolchgar iawn i'r cyfresi hyn am roi i ni'r sgiliau angenrheidiol i allu mwynhau ymgolli mewn llyfr? Er i Mic, Bet, Mot a'r lori gael eu disodli gan Sali Mali a Jaci Soch ar ddiwedd yr 1960au, eto i gyd yr un oedd bwriad y ddwy gyfres - dysgu plant Cymru i ddarllen a'u hysgogi i ymgolli mewn llyfr da.

Un o'r prif wahaniaethau rhwng y ddwy gyfres oedd mai cyfres wedi ei chyfieithu oedd cyfres Darllen Difyr, tra bo Sali Mali, Jaci Soch a'r Pry Bach Tew yn gymeriadau â'u gwreiddiau yn ddwfn yng Nghymru. Roedd dyfodiad Sali Mali i ysgolion Cymru yn gam cadarnhaol ac yn gam pwysig iawn.

Yn adroddiad blynyddol Estyn eleni, rhoddir sylw i addysgu darllen. Mae'n sôn am ysgolion sy'n llwyddiannus yn eu dulliau o feithrin sgiliau darllen ac yn yr ysgolion hynny roedd darllen wedi ei wreiddio'n ddwfn ac wedi ymestyn ar draws y cwricwlwm. Yr hyn sy'n wir hefyd am ysgolion llwyddiannus yw eu bod yn meithrin cariad at ddarllen yn eu dysgwyr. Fel gyda phob agwedd o fyd addysg, mae'n bwysig bod y gweithlu addysg hefyd yn fodolau da o ran darllen. Nodir yn yr ysgol lle'r oedd systemau darllen yn llwyddiannus - **'Roedd arweinwyr a staff yn dangos brwdfrydedd dros ddarllen ac yn sicrhau ei fod yn weladwy ac yn cael ei werthfawrogi mewn arferion beunyddiol.'**

Mae darllen yn rhywbeth sy'n treiddio drwy bob pwnc ac yn sgil y mae pob athro yn gyfrifol am ei meithrin a'i datblygu. Mae cysylltiad agos rhwng tlodi a diffyg sgiliau darllen hefyd ac efallai ein bod yn cymryd yn rhy ganiataol, fod ein dysgwyr yn gyfarwydd â gweld deunyddiau darllen, boed hynny ar ffurf llyfrau neu'n ddeunydd darllen

ar-lein. Yn un o gyfarfodydd diweddar UCAC, roedd aelodau'r cyfarfod hwnnw yn credu bod angen ymgyrch a fyddai'n annog rhieni a darllenwyr i ddarllen gyda ac i'w plant. Faint o rieni a gofalwyr sy'n darllen gyda'u plant? Mae'r weithred o ddarllen yn

gyson gyda phlentyn yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr - mae'n ehangu geirfa, yn cynnwyr dychymyg ac yn gallu meithrin cariad at lyfrau a darllen.

Mae'n un o'r ffyrdd mwyaf pwerus y gall rhieni a gofalwyr gefnogi addysg eu plant. Faint o blant sydd o dan anfantais wrth ddysgu darllen yn yr ysgol am nad ydynt wedi cael rhiant neu oedolyn arall yn darllen iddyn nhw? Wrth drafod darllen yn ddiweddar gydag aelodau UCAC, rhai o'r atgofion cynharaf oedd ganddynt o ddarllen, oedd y mwynhad yr oeddent wedi ei gael wrth i'w rhieni ddarllen straeon iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld pwysigrwydd darllen ac wedi pennu 2026 yn flwyddyn ddarllen genedlaethol. Am fwy o wybodaeth, ewch i: <https://www.llyw.cymru/blwyddyn-darllen-genedlaethol> Efallai nad yw'r slogan 'Os ti'n diddori dos i bori' yn un ysbrydolgar iawn, ond mae neges yr ymgyrch yn un bwysig.

Yn y rhifyn hwn o'r Athro rydym yn edrych ar wahanol agweddau o ddarllen - profiadau personol rhai aelodau, awgrymiadau am lyfrau i'w darllen a mwy.



Pam Mae Darllen Mor Bwysig?

DYMA RAI DYFYNIADAU I GNOI CIL ARNYNT

1. 'Mae tŷ heb lyfrau, fel ystafell heb ffenestri.'
2. 'Mae darllen yn bwysig. Os ydych chi'n gwybod sut i ddarllen, yna mae'r byd i gyd yn agor o'ch blaen.' (Barack Obama)
3. 'Mae llyfr yn anrheg y gallwch ei agor dro ar ôl tro'
4. 'Mae llythrennedd yn bont o drueni i obaith' (Kofi Annan)
5. 'Does dim y fath beth â phlentyn sy'n casáu darllen; ond mae yna blant sydd heb ddod o hyd i'r llyfr iawn...eto'
6. 'Daw plant yn ddarllenwyr ar liniau eu rhieni.'
7. 'Ni ddylid cyflwyno darllen i blant fel dylestwydd neu dasg. Dylid ei gyflwyno yn anrheg gwerthfawr.'
8. 'Mae dysgu darllen fel cynnau tân, mae pob sillaf yn wreichionyn sy'n goleuo.' (Victor Hugo)
9. 'Nid yw'n ddigon dysgu plant i ddarllen; mae'n rhaid i ni roi rhwybeth gwerth ei ddarllen iddynt – rhywbeth a fydd yn ymestyn eu dychymyg, rhywbeth a fydd yn eu helpu i wneud synnwyr o'u bywydau ac yn eu hannog i ymestyn allan at bobl y mae eu bywydau yn gwbl wahanol i'w bywydau nhw.'
10. 'Mae darllen i'r meddwl yr hyn yw ymarfer i'r corff.'
11. 'Mae darllen yn bwysig, oherwydd os gallwch ddarllen, gallwch ddysgu unrhyw beth am bopeth a phopeth am unrhyw beth.'
12. 'Llyfrau yw'r allwedd i'r byd mawr.'
13. 'Mae gwybod bod llyfr da yn aros amdanoch ar derfyn diwrnod hir yn gwneud y diwrnod yn un hapusach.'



Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Sara Edwards

Is-Lywydd: Rhun Llwyd

Ysgrifennydd Cyffredinol: Ioan Rhys Jones

Is-ysgrifennydd Cyffredinol: Mererid Lewis Davies

Cydylynydd Yr Athro: Iona Davies

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC. Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

EICH AELODAETH



NEWID
ORIAU
GWAITH?



SWYDD
NEWYDD?



RHIF FFÔN
NEU E-BOST
NEWYDD?



SYMUD
Tŷ?

COFIWCH ROI GWYBOD I NI!

**MEWNGOFNODWCH I'CH CYFRIF
NEU CYSYLLTWCŔ Â NI:**



01970 639950



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



aelodaeth@ucac.cymru



Dr Matthew Williamson-Dicken

Pŵer Tawel Darllen mewn Byd Sw'nlllyd

Yn yr erthygl isod mae Dr Matthew Williamson-Dicken, Pennaeth Ysgol Panteg yn Nhorfaen yn ystyried y pŵer sydd ynghlwm wrth ddarllen, hyd yn oed pan fo cymaint o bethau eraill yn galw am ein sylw.

Ar ôl blwyddyn gyfan o fod yn yr ysgol a'r teimlad o bron dim seibiant, yn ystod yr Haf diwethaf eisteddais i lawr ar fy ngwely haul gyda fy llyfr. Roeddwn i wedi meddwl mor galed am ba un i'w ddarllen. Rwy'n ei chael hi'n anodd darllen nofelau yn ystod y tymor oherwydd erbyn diwedd y dydd mae fy nghapasiti wedi pylu. Felly, bob tro rwy'n dewis yn fwriadol lyfr rwy'n credu a fydd yn werth chweil. Eisteddais. Agorais y llyfr. Ac, allwn i ddim canolbwyntio. Roedd fy meddwl yn dal i chwyrlio o waith y flwyddyn. Gwnaeth hyn i mi feddwl.

Mae ystafelloedd dosbarth heddiw yn fywiog, yn brysur, ac yn llawn posibilrwydd. Maent hefyd wedi'u lleoli mewn byd nad yw erioed wedi bod yn sw'nlllyd. Mae plant a phobl ifanc yn symud trwy eu dyddiau wedi'u hamgylchynu gan sgriniau, hysbysiadau, fideos byr, a ffrwd ddiddiwedd o gynnwys digidol yn

cystadlu am eu sylw. Mae athrawon yn gweld hyn yn uniongyrchol. Maent yn gweld y newid cyflym rhwng tasgau, atyniad adloniant digidol, a'r her o gynnal ffocws. Yn y dirwedd hon, gall darllen weithiau deimlo fel ei fod yn ymladd am le. Eto i gyd, mae'n parhau i fod yn un o'r offer mwyaf pwerus sydd gennym ar gyfer meithrin chwilfrydedd, meddwl dwfn, a chysylltiad emosiynol.

Nid yw'r broblem yn ymwneud â disgyblion ddim yn mwynhau straeon mwyach. Mae wynebau yn dal i oleuo pan fyddant yn darganfod llyfr y maent yn uniaethu gydag e. Yr anhawster yw bod darllen bellach yn cystadlu ag ecosystem ddigidol gyfan a gynlluniwyd i fod yn uniongyrchol, yn ysgogol, ac yn ddiymdrech. Mae llyfr yn gofyn am rywbeth gwahanol. Mae'n gofyn i ddysgwyr arafu, dychmygu, dilyn llinyn meddwl heb ymyrraeth. I blant sydd wedi arfer â'r gallu i newid eu sylw yn gyflym o un peth i'r llall, gall hyn deimlo'n anghyfarwydd. Ond nid yw anghyfarwydd yn golygu dibwys. Mewn gwirionedd, y cyferbyniad hwn yn union sy'n gwneud darllen mor hanfodol.

Drosodd ►

Mae darllen yn cryfhau'r sgiliau gwybyddol ac emosynol y mae bywyd modern yn tueddu i'w herydu. Pan fydd disgyblion yn darllen, maent yn ymarfer sylw parhaus sy'n rhywbeth sy'n ymddangos yn bwysicach byth i'w ddysgu nag erioed o'r blaen. Maent yn dysgu cadw syniadau mewn cof, dilyn naratif, casglu ystyr, ac adeiladu dealltwriaeth gam wrth gam. Nid sgiliau llythrennedd yn unig yw'r rhain. Nhw yw sylfeini meddwl beirniadol, empathi, a gwydnwch. Maent yn helpu pobl ifanc i lywio cymhlethdod, deall gwahanol safbwyntiau, a gwneud penderfyniadau meddylgar. Mewn byd llawn sŵn, mae darllen yn cynnig eglurder.

Mae athrawon yn gwybod bod darllen hefyd yn weithred ddynol ddofn. Mae'n caniatáu i ddisgyblion fod yn gwbl bresennol ac i gael eu cludo i fyd arall. Gall llyfr eu harwain i amser arall, lle arall, bywyd arall. Dysgodd fy mam fy hun i mi bob amser y 'gallwch chi fynd i unrhyw le mewn llyfr'. Gall llyfrau eu herio, eu cysuro, neu eu helpu i wneud synnwyr o'u profiadau eu hunain. Gall llyfrau ddangos cymeriadau sy'n edrych fel nhw a chymeriadau nad ydyn nhw. Gall llyfrau ehangu eu byd a dyfnhau eu hymdeimlad o berthyn. Mae'r teimlad tawel hwn yn rhywbeth na all unrhyw algorithm ei atgynhyrchu er gwaethaf natur sy'n achosi endorffinau'r hymian digidol cyflym.

Nid yw sŵn y byd modern i gyd yn negyddol. Mae technoleg wedi agor posibilïadau rhyfeddol ar

gyfer dysgu. Gall disgyblion gael mynediad at wybodaeth ar unwaith, cydweithio ar draws cyfandiroedd, ac archwilio syniadau trwy gyfrwng amlgyfrwng. Mae'r her yn codi pan fydd y cyflymder yn ddi-baid. Pan fydd pob eiliad sbâr yn cael ei llenwi, pan fydd distawrwydd yn teimlo'n anghyfforddus, pan fydd sylw'n cael ei rannu. Mae darllen yn cynnig gwrthbwysio. Mae'n rhoi caniatâd i ddysgwyr arafu, i feddwl, i ddychmygu.

Yn bwysig, nid oes angen i ddarllen gystadlu â thechnoleg. Gall esblygu ochr yn ochr â hi. Gall llyfrau sain gefnogi darllenwyr amharod neu'r rhai sy'n prosesu gwybodaeth yn wahanol. Gall darllenwyr electronig wneud testunau'n fwy hygyrch. Gall llwyfannau ar-lein gysylltu disgyblion ag awduron, clybiau llyfrau, a chymunedau darllen. Gall offer digidol wella darllen yn hytrach na'i ddisodli. Nid y fformat yw'r hyn sy'n bwysig ond y bwriad. Dewis darllen yw dewis creu eiliad o lonyddwch mewn byd sy'n symud yn gyflym.

I athrawon, mae hyn yn cyflwyno her a chyfle. Nid yw annog darllen yn ymwneud â gwrthsefyll yr oes ddigidol ond â chynnig cydbwysedd. Mae'n ymwneud â helpu disgyblion i ailddarganfod pleser mynd ar goll mewn stori, boddhad gorffen pennod, balchder deall rhywbeth newydd. Mae'n ymwneud â chreu diwylliannau ystafell ddoosbarth lle mae darllen yn weladwy, yn cael ei werthfawrogi, ac yn cael ei rannu. Pan fydd disgyblion yn gweld oedolion yn darllen, yn siarad am lyfrau, ac yn dathlu straeon, maent yn dechrau deall nad tasg yw darllen ond arfer gydol oes.

Rydym i gyd yn gwybod y gall darllen hefyd fod yn arf pwerus ar gyfer lles. Mewn amgylcheddau ysgol prysur, lle mae disgyblion yn jyglo disgwyliadau academiaidd, pwysau cymdeithasol, a heriau personol, gall darllen gynnig tawelwch. Gall ddarparu dihangfa, cysur, a phersbectif. Rwy'n credu'n gryf ei fod yn darparu rhyddhad i lwythi gwybyddol sydd wedi llethu. Gall helpu disgyblion i reoleiddio emosynau, meithrin empathi, a datblygu ymdeimlad cryfach o hunan. Gall hyd yn oed ychydig funudau o ddarllen greu eiliad o dawelwch mewn diwrnod swllyd.

Mae darllen yn weithred dawel o wrthwynebiad yn erbyn brys bywyd modern. Mae'n atgoffa disgyblion i gyd fod ein sylw yn werthfawr a'n bod ni'n gallu dewis sut i'w ddefnyddio. Mae'n ein gwahodd i arafu, i feddwl yn ddwfn, ac i gysylltu ag eraill. Mewn byd llawn sŵn, mae darllen yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o helpu pobl ifanc i ddod o hyd i eglurder, llawenydd, ac ystyr.

Ac efallai mai dyna'r neges fwyaf gobeithiol oll. Ni waeth pa mor swllyd yw'r byd, mae gan y weithred syml o agor llyfr rym o hyd.

NERTH I NERTH

ARIAN PAROD AM GYFLWYNO AELODAU NEWYDD

Am bob aelod y llwyddwch i'w recriwtio i UCAC, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn £25 yr un!

MANTEISIWCH AR Y CYFLE!

RHAGOR O WYBODAETH: aelodaeth@ucac.cymru

*Ni ellir manteisio ar y cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig ymaelodi arall.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

01970 639950

ucac@ucac.cymru

A dyma farn rhai o aelodau UCAC am lyfrau...

Tybed pa lyfrau fydddech chi wedi eu henwi?



Siân Ifan

- Y llyfr rwyf ar ganol ei ddarllen - Bitter Honey – Caryl Lewis
- Y llyfr a ddylanwadodd fwyaf arna i – Nôl i Leifior - Islwyn Ffowc Elis
- Y llyfr rwy'n troi ato mewn cyfng gyngor – Y Beibl
- Llyfr i'w roi yn anrheg – Dihirod Dyfed – Bethan Phillips
- Y math o lyfr yr hoffwn ei ysgrifennu – Cysgod y Cryman
- Y llyfr cyntaf i mi ei ddarllen – Smot y Ci
- Unrhyw atgof am ddysgu darllen – Rwy'n cofio Mam yn darllen straeon T. Llew Jones amser gwely.





Julia James

- Y llyfr rwyf ar ganol ei ddarllen - Blasu – Manon Steffan Ros
- Y llyfr a ddylanwadodd fwyaf arnaf – Cysgod y Cryman – Islwyn Ffowc Elis
- Y llyfr sydd wastad yn codi gwên – Llyfrau'r awdures Sophie Kinsella
- Llyfr i'w roi yn anrheg – Unrhyw lyfr Cymraeg
- Y math o lyfr yr hoffwn ei ysgrifennu – Clecs!
- Y llyfr cyntaf i mi ei ddarllen – Sali Mali
- Unrhyw atgof am ddysgu darllen – Mwynhad mawr!



Jen Jones

- Y llyfr rwyf ar ganol ei ddarllen – Study for Obedience – Sarah Bernstein
- Y llyfr a ddylanwadodd fwyaf arna i – Fire under the Snow: Testimony of a Tibetan Prisoner – Palden Gyatso
- Y llyfr sy'n hel llwch – Grace gan Paul Lynch (methu cael gafael arno o gwbl)
- Llyfr yr hoffwn fod wedi'i ddarllen, ond heb wneud – Anna Karenina – Leo Tolstoy
- Y llyfr rwy'n troi ato mewn cyfng gyngor – Palgrave's Golden Treasury – dw i bob amser yn canfod cerdd sydd yn helpu
- Y llyfr sydd wastad yn codi gwên – Finding Gobi (stori am redwr marathon a chi bach strae sydd yn ei ddilyn am 77 milltir ar draws anialwch y Gobi tan i'r rhedwr ei fabwysiadu)
- Llyfr i'w roi yn anrheg - Aberteifi: Y Dre a'r Wlad – Ceri Wyn Jones a Richard Outram
- Y math o lyfr yr hoffwn ei ysgrifennu – Nofel hanesyddol (wedi dwlu ar yr awdures Hilary Mantel)
- Y llyfr cyntaf i mi ei ddarllen – Sali Mali a Jaci Soch



Hybu Sgiliau Darllen



‘Llai a llai o blant yn darllen....Heb ymyrraeth ar lefel ddeddfwriaethol, mae’n debyg y bydd yr arfer o ddarllen yn diflannu.’

Geiriau o erthygl ar Golwg 360

(<https://golwg.360.cymru/celfyddydau/llen/219275-2-llai-llai-blant-darllen>) yw’r uchod. Maent yn eiriau sy’n ein sobri ac yn peri gofid. Mae sgiliau darllen dysgwyr yng Nghymru wedi bod yn destun gofid ers sawl blwyddyn bellach ac mae ysgolion ledled Cymru wedi gweithio’n ddygn i fynd i’r afael â’r her o wella sgiliau darllen disgyblion.

Cafodd Ysgol Uwchradd Aberaeron ganmoliaeth gan Estyn am eu cynlluniau hwy i wella sgiliau darllen y disgyblion. Elin Efans, Pennaeth Cymraeg yr ysgol, fu’n esbonio beth y maent wedi ei wneud fel ysgol.

Yn ystod y broses o werthuso gwaith yr ysgol yn ystod tymor yr haf 2022, amlygwyd ‘darllen’ fel maes yr oedd angen rhoi sylw iddo. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd cynllun darllen boreol yn ystod cyfnodau cofrestru estynedig ar foreau lau a Gwener. Cyflwynwyd y sesiynau darllen ym mis Hydref 2022, felly maent wedi hen ennill eu plwyf yn yr ysgol, ac mae’r cynnydd a welwyd yn sgoriau darllen y disgyblion wedi iddynt ddilyn y cynllun hwn yn dystiolaeth fod y cynllun yn un llwyddiannus ac yn un y mae’n werth ei gynnal.

Yn ystod y sesiynau boreol hyn, mae disgyblion iau yr ysgol (Blynyddoedd 7 ac 8 ar hyn o bryd) yn darllen ar y cyd gyda’u tiwtoriaid dosbarth. Rhoddir sylw i ddarllen Cymraeg un wythnos ac i ddarllen Saesneg yr wythnos ganlynol. Ar fore lau, bydd y tiwtoriaid dosbarth yn cyflwyno darn darllen i’r dosbarth. Penaethiaid yr Adrannau Cymraeg a Saesneg fydd wedi darparu’r darnau hyn. Bydd y tiwtoriaid yn trafod ffurf y darn, yn edrych ar gliwiau a fydd yn amlygu natur y darn, yn trafod yr awdur, gan gyfeirio at ddeunyddiau darllen eraill gan yr un awdur. Yna, bydd y tiwtor yn bwrw ati i ddarllen y darn gyda’i ddosbarth, gan foddelu darllen clir, synhwyrol. Rhoddir pwyslais ar yr atalnodi ac at oslef llais wrth ddarllen. Gwna’r tiwtor yn siŵr fod yr amgylchedd o fewn y dosbarth yn un cadarnhaol ac anogir dysgwyr i ddefnyddio unrhyw



gymorth sydd ei angen arnynt wrth ddarllen – bydd rhai’n dilyn gyda phren mesur, eraill yn gorchuddio’r darn gyda throshaen (overlay) bwrpasol. Os oes unrhyw eirfa yn ddieithr, trafodir yr eirfa honno. Yna, bydd y disgyblion yn rhannu yn grwpiau bach o ddau neu dri ac yn darllen i’w gilydd. Bydd ambell unigolyn yn awyddus i ddarllen o flaen y dosbarth a chaiff gyfle i wneud hynny. Daw’r sesiwn i ben gyda’r Athro Dosbarth yn darllen y darn unwaith eto.

Mae’r CADY a’i thîm yn gweithio gyda disgyblion sydd â medrau darllen isel ac mae’r disgyblion hynny yn cael eu tynnu o’u dosbarthiadau cofrestru ar gyfer y gefnogaeth honno. Yn ogystal, mae aelodau’r chweched dosbarth wedi eu hyfforddi i fod yn ‘Bydis Darllen’ ac maen nhw hefyd yn cefnogi disgyblion sydd â medrau darllen isel.

Fore Gwener, darllenir yr un darn eto ond y tro hwn, bydd y ffocws ar ateb cwestiynau i sicrhau dealltwriaeth. Mae’r cwestiynau yn gwestiynau CAREDIG, hynny yw yn gwestiynau sy’n profi sgiliau CRYNHOI, AWGRYMU, ESBONIO, DILYNIANT, I-GOF (ADALW) a GEIRFA. Rhoddir rhwng chwech a deg cwestiwn i’r disgyblion eu hateb ac ar ôl iddynt gael cyfle i ateb y cwestiynau maent yn eu marcio. Drwy hyn, mae’r disgyblion nid yn unig yn gwella eu sgiliau darllen, ond rhoddir pwyslais hefyd ar ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen.



Arloesi ym myd adnoddau: sut mae Adnodd yn hybu llythrennedd drwy Gymru

Y llynedd daeth Emyr George, Prif Weithredwr Adnodd i Gynhadledd UCAC i sôn am y gwaith o ddarparu adnoddau addysgol i ysgolion Cymru. Dyma wybodaeth am y ffordd y mae Adnodd yn hybu darllen.

Yn Adnodd, rydyn ni'n gwybod bod datblygu sgiliau llythrennedd cryf yn gwbl ganolog i addysgu a dysgu, ac fel chi, rydyn ni wedi ymrwymo i ysbrydoli darllenwyr hyderus a chwilfrydig.

Mae llythrennedd yn fodd o addysgu a dysgu drwy'r holl gwricwlwm, ac yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau pwysig eraill, gan gynnwys sgiliau rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae sgiliau llythrennedd cryf yn hwb i'n lles ac yn ein helpu ni i gyfathrebu, cysylltu a ffynnu yn yr ysgol, yn ein swyddi ac yn y gymuned.

Ein gwaith ni yn Adnodd yw arwain a chydlynu'r broses o ddarparu adnoddau dwyieithog o'r radd flaenaf, sy'n cynnig hwb gwirioneddol i'ch ymarfer ac yn ysbrydoli dysgwyr ledled Cymru.

O wrando'n astud ar addysgwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydyn ni'n gwybod fod diddordebau dysgwyr yn amrywio, bod y cyd-destunau'n amrywio mewn dosbarthiadau, ac y gall yr adnodd iawn ar yr adeg iawn wneud byd o



wahaniaeth. Yn ein blwyddyn gyntaf, ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi buddsoddi mewn apiau, mewn prosiectau sy'n dosbarthu llyfrau, mewn gemau digidol, ac mewn prawf darllen Cymraeg wedi'i ddigideiddio. Nod y cyfan yw eich helpu chi i gryfhau sgiliau darllen a llythrennedd dysgwyr.

Llynedd, aethon ni ati i lansio ein [Cronfa Arloesi a Chydweithio](#), gan ddyfarnu deg o brosiectau cyffrous, gyda sawl un yn rhoi lle canolog i lythrennedd. Un enghraifft yw'r prosiect gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i greu dihangfan (*escape room*) ddigidol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn hanes Cymru ac yn hybu llythrennedd, a hynny drwy stori Cwm Tryweryn.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Llyfrau Cymru i hybu darllen a llythrennedd. Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi ariannu cyhoeddwy'r i greu [24 o lyfrau darllen](#) dan arweiniad sy'n cyd-fynd â'r fframwaith ADY Cymraeg, a danfon pecyn o [lyfrau Cymraeg a Saesneg](#) i bob ysgol yng Nghymru fel pen llanw y prosiect Rhyngom.

Wrth gamu i'r [Flwyddyn Darllen Genedlaethol](#), mae Adnodd yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo hoffter gydol oes o ddarllen ledled Cymru.

Eleni hefyd, rydyn ni wedi comisiynu Miller Research i gynnal [prosiect ymchwil sy'n edrych ar ymyriadau ym maes llythrennedd](#) yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau'n llywio ein ffyrdd o gomisiynu yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod yr adnoddau rydyn ni'n eu datblygu'n cyd-fynd â'r hyn sy'n cael yr effaith fwyaf gadarnhaol, ar sail yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthyn ni.

[Cofrestrwch](#) i gael ein cylchlythyr a dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i glywed am gyfleoedd newydd, am adnoddau, ac am ddatblygiadau wrth iddyn nhw ddigwydd. Bydden ni wrth ein boddau pe baech chi'n ymuno â ni ar y siwrne.





Unigolyn arall a ddaeth i Gynhadledd 2025 oedd Rhiannon Parry a soniodd am ei chwmini 'Er dy les di'. Dyma rai sylwadau ganddi hi am bwysigrwydd darllen a chyfraniad ei chwmini hi at hybu darllen a sut y gall ymgolli mewn llyfr gyfrannu at ein lles.

Darllen er Lles

(gan Rhiannon Parry cwmni Er dy les di)

Rydym fel athrawon yn deall pwysigrwydd darllen fel conglaen addysg ein plant, a Llywodraeth Cymru'n galw arnom i "weithio gyda'n gilydd i greu cenedl o ddarllenwyr hyderus." Rwy'n sicr fod pob athro yn ceisio sicrhau fod darllenwyr hyderus yn ein dosbarthiadau drwy wrando arnynt yn darllen yn rheolaidd a'u hybu i ddarllen adref.

Ond beth am ddarllen i'r plant? Gwyddom fod gwrandao ar eiriau a myfyrio ar eu cynnwys yn sgil sydd yn rhaid ei ddysgu i blant yn ein byd digidol, heddiw. Mae'r hyd y gallwn ddal sylw plentyn yn byrhau o hyd. Felly os nad oes amser am stori, mae rhai athrawon yn troi at ddarllen pwt dyddiol fel man cychwyn, i ennyn diddordeb ac annog awydd i ddarllen mwy. Fy mhrosiect diweddaraf oedd creu llyfr Gymraeg o'r enw Diwrnodau'r Flwyddyn sy'n rhoi cyfle i ddarllen pwt byr, dyddiol sy'n ysgogi iechyd meddwl iachus ac sy'n dysgu'r plant am y byd mawr o'u hamgylch. Mae'r wybodaeth wedi'i seilio ar 'Days of the Year' rhyngwladol ac felly'n gyfredol, ac mae'r pytau'n ddigon byr i godi brwdfrydedd i ddarllen gobeithio!

Rwy'n credu'n gryf fod darllen yn gallu bod yn llesol i iechyd meddwl a dyna pam fod fy nghwmni yn creu

adnoddau megis nodau llyfr, "ymgolla mewn llyfr!" bathodynau, dyddiaduron a llyfrau gwersi a lliwio. Mae plant yn darllen i gael eu hadlonni, fel modd o ymlacio neu i ddianc o broblemau bob dydd ac mae gwaith ymchwil yn profi fod plant sy'n darllen yn rheolaidd yn elwa o lefelau uwch o les na'r rheini nad ydynt yn darllen. Mae llyfrau yn wych ar gyfer lles plant! Maent yn fodd gwych o gyflwyno sefyllfaoedd o drama neu brofiadau iddynt ar eu lefel nhw a hyn yn fodd i hybu trafod sefyllfaoedd anodd a chymhleth. Mae fy llyfr yn sbardun felly ar gyfer annog darllen ac yn sbardun ar gyfer datblygu iechyd meddwl iach a llesiant ein plant.



GALW AM YMDDIRIEDOLWYR

Mae UCAC yn cynrychioli athrawon, darlithwyr ac arweinwyr addysg ym mhob cwr o Gymru.

Rydym yn awyddus i benodi ymddiriedolwyr newydd i gyfrannu at lywodraethiant yr Undeb. Mae croeso i unrhyw aelod neu gyn-aelod fynegi diddordeb, a'r Cyngor Cenedlaethol fydd yn penodi'n derfynol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag ucac@ucac.cymru



Llesiant a Darllen

Tybed faint ohonoch a ddarllenodd y llyfr 'Rest is Resistance' yn sgil argymhelliad Faye McGuinness yng Nghynhadledd 2025. Yma mae'n sôn am lyfrau eraill y mae hi wedi eu cael yn fuddiol. Beth am fynd ati i ddarllen un....neu ddau....neu'r cyfan!

Nid oes unrhyw amheuaeth am les darllen a sut y gall ymgolli mewn llyfr fod yn hwb i'r galon a chodi ysbryd. Nid yn unig mae modd dianc i fyd arall drwy gyfrwng llyfr da, ond mae modd treulio amser hefyd yn darllen llyfrau sy'n rhoi cyngor am les. Bydd y rhai a fynychodd gynhadledd UCAC yng Nghaerdydd yn 2025 efallai yn cofio i Faye McGuinness o Education Support argymhell y llyfr 'Rest is Resistance' gan Tricia Hersey. Tybed faint o gynadleddwyr 2025 ddarllenodd y llyfr? Bwrdd y llyfr yw pwysigrwydd gorffwys mewn byd lle mae gwaith yn ddiidwedd a'r pwyslais ar waith, gwaith, gwaith. Yn y llyfr, mae'r awdur yn athronyddu ar y cysyniad o orffwys yng nghyd-destun cyfalafiaeth. Mae hefyd yn cynnig cyngor ymarferol sut i gynnwys gorffwys o fewn bywyd bob dydd, gan bwysleisio pa mor angenrheidiol yw gorffwys i lesiant corfforol a meddyliol.

Flwyddyn yn hwyrach, dyma ofyn i Faye McGuinness pa lyfrau eraill y byddai hi'n eu hargymhell i athrawon eu darllen ynghylch llesiant. Dyma restr o saith llyfr y mae Faye wedi eu mwynhau. Mae'r saith ohonynt yn trafod lles a llesiant, ond nid ydynt i gyd yn benodol am les athrawon.

Beth am fynd ati i'w darllen...un neu'r cyfan ohonynt?

1. Burnout: solve your stress cycle gan Emily ac Amelia Nagoski

Yn y llyfr hwn cawn ddarllen sut mae menywod yn profi 'diffygiad' (burnout) mewn ffordd wahanol i ddynion ac mae'n cynnig cynllun i helpu menywod i leihau straen, rheoli emosiynau a byw bywyd hapusach. Mae'n edrych ar y rhwystrau sy'n sefyll rhwng menywod a llesiant. Yn ôl broliant y llyfr, mae darllen y llyfr yn agoriad llygaid, mae'n llyfr teimladwy ac optimistaidd ac o'i ddarllen, byddwch yn meddwl yn gwbl wahanol am reoli straen a phwysau a bydd yn eich galluogi i ffynnu o dan bwysau ac i fyw bywydau ystyrlon a chadarnhaol.

2. The body holds the score gan Bessel van der Kolk

Mae trawma yn gallu dryllio dioddefwyr, eu teuluoedd a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r arbenigwr hwn yn edrych ar ddulliau newydd o drin trawma, gan feddwl am ddulliau gwahanol i'r triniaethau siarad neu gyffuriau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

3. Boundary boss gan Terri Cole

Ydych chi'n anwybyddu eich anghenion personol, er mwyn plesio eraill? Ydych chi'n cuddio'ch teimladau nes eich bod mor rhwystredig ac yna'n ffrwydro? Mae gan bobl lwyddiannus a bodlon un peth yn gyffredin: y gallu i greu a mynegi ffiniau clir ac iach. Yn y llyfr hwn, cyflwynir rhai strategaethau a thechnegau i greu ffiniau o'r fath.



4. Unstressable: A Practical Guide to Stress-free living gan Mo Gawdat

Gweithredoedd ac Agweddau – dwy elfen o'n bywydau y gallwn eu rheoli, yn ôl Mo Gawdat. Peiriannydd yw Mo Gawdat ac mae'n wynebu materion fel straen a phwysau mewn modd gwyddonol. Mae'n rhannu sut y gwnaeth e ymdopi â phwysau Covid. Mae'n cynnig cyngor sut i ragweld pwysau a champau i'w cymryd i ymdopi ag amgylchiadau anodd.

5. Lost Connections gan Johann Hari

Mae Johann Hari yn dioddef o iselder ers blynyddoedd lawer. Yn y llyfr hwn, mae'n ystyried rhai o'r rhesymau sy'n arwain at broblemau iechyd meddwl a sut i fynd i'r afael â nhw.

6. People Solutions for School Leaders gan Maureen Bowes

Mae cynnwys y llyfr hwn wedi ei seilio ar brofiad yr awdur o ymwneud â phenaethiaid ac arweinwyr ysgolion. Mae'n pwysleisio parch, hyblygrwydd a'r gallu i addasu. Yn y llyfr cawn gyngor sut i gadw'n iach, rheoli llwyth gwaith, derbyn gwahaniaethau, mynd i'r afael â'r hyn sy'n annerbyniol, torri drwy'r hyn sy'n lletchwith ac anghyfforddus ac ail ddarganfod y llawenydd sydd i'w gael yn y proffesiwn.

7. Why Workplace Wellbeing Matters: The Science Behind Employee Happiness and Organizational Performance gan Jan-Emmanuel de Neve a George Ward

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn treulio traean o'n bywydau yn y gwaith. Mae gwaith yn effeithio ar bopeth – ein hamser hamdden, ein perthynas gydag eraill, ein hunaniaeth a'n sefyllfa ariannol. Ydy ein gwaith yn ein gwneud yn hapus? Dyna sy'n cael ei ystyried yn y llyfr hwn. Mae'n egluro beth yw llesiant yn y gwaith ac yn cynnig fframwaith i fusnesau a chyngor sut i wella llesiant yn y gweithle. Mae'n dangos y gwahaniaeth mawr sy'n bodoli rhwng gweithloedd a'i gilydd. Mae hefyd yn ystyried beth y gellir ei wneud i wella lles yn y gweithle ac yn dangos sut mae lles yn effeithio at ddenu a chadw'r gweithlu. Testunau sy'n hynod berthnasol i fyd addysg ar hyn o bryd.

Ffarwelio â Dau o Staff UCAC

Daeth diwedd cyfnod yn yr Undeb ddiwedd mis Mawrth wrth i Nia Evans, ein Swyddog Cyfathrebu a Chynorthwydd Personol ac Ywain Myfyr, ein Swyddog Maes Cynorthwyol, ddod a'u cyflogaeth ag UCAC i ben.

Bydd nifer ohonoch wedi cyfathrebu gyda Nia gan mai hi sydd wedi bod yn cydgorffio cynadleddau UCAC a chyfarfodydd Cyngor ac adrannau'r Undeb ers Medi 2017. Hi hefyd sydd wedi bod yn gyfrifol am ddylunio deunydd cyfathrebu'r Undeb ac arwain gyda'r cyfryngau cymdeithasol. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi gychwyn ar fenter newydd ym myd amaeth.

Daeth Ywain atom wedi blynyddoedd fel athro a phennaeth ysgol Gynradd, gan ddefnyddio ei brofiad a'i arbenigedd i gynorthwyo ar bolisi ac yn y maes. Wedi dod atom ar ddechrau Ionawr 2016, mae o bellach yn cael cyfle i fwynhau ei ail ymddeoliad yn llawn, er y bydd mor brysur ag y mae o wedi bod erioed mae'n siŵr.

Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth gwerthfawr i'r Undeb.



Nia Evans



Ywain Myfyr

**ABSENOLDEB RHIANT
A'CH AELODAETH**

AR GYFNOD ABSENOLDEB
MAMOLAETH, TADOLAETH
NEU FABWYSIADU?

**MANTEISIWCH AR
AELODAETH
HANNER PRIS!
£££**

CYSYLLTWCH Â NI
AM RHAGOR O
WYBODAETH

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

01970 639950

ucac@ucac.cymru

Teyrnged Y Prifardd Robot Powell i John Hopkin Evans

Yn ddiweddar, daeth y newyddion trist am farwolaeth un o gyn-lywyddion yr Undeb, John Hopkin Evans – Llywydd UCAC 1984-1985. Rydym yn ddiolchgar i'r Prifardd Robot Powell am ei deyrnged i un a gyfrannodd yn helaeth i addysg yng Nghymru.

Ergyd greulon, nid yn unig i'w deulu a'i ffrindie, ond i holl ardal Cwm Tawe a thu hwnt, oedd marwolaeth John Evans ar Ionawr y 4ydd eleni. Cymeriad o argyhoeddiad, yn gadarn dros hawliau Cymru a'i gyd-athrawon, ac eto'n bersonoliaeth gynnes, ac yn gwmni heb ei ail.

Ganed John yn ail fab i Jack a May Evans yn y Gurnos, Ystalyfera, yn 1936, ond buan y symudodd y teulu i Gwmllynfell. Glowr oedd ei dad, Jack, yn Gomiwnydd pybyr a werthai'r 'Daily Worker' trwy'r ardal. Daliodd yr awch yma dros gyfiawnder cymdeithasol yn ddylanwad ar John ar hyd ei oes.

Pasiodd John yr arholiad 11+ i Ysgol Ramadeg Ystalyfera yn ddeg oed. Ymdaflodd i bob agwedd o'r ysgol ramadeg lle bu'n aelod brwdfrydig o'r cwmni drama ac yn ysgrifennydd y timau criced a rygbi.

Roedd eisteddfodau lleol yn rhan o fagwraeth John, a byddai'n mynd o un i'r llall gyda'i gyfaill mynwsol Henry Booth, Henry'n canu yno a John yn adrodd – ac yn ennill!

Er yn fychan o gorff, dwlai John ar bob math o chwaraeon. Tu fas i'r ysgol bu'n serennu dros glwb tennis Cwmllynfell, yng nghyngair tennis bwrdd yr ardal, ac o gwmpas byrddau snwcer y cwm. Yn ddiweddarach datblygodd dalent golffwr hefyd.

Aeth John ymlaen i Goleg Prifysgol Caerdydd lle daliodd i actio, a graddio yn 1957 gyda dosbarth cyntaf yn y Gymraeg.

Ei swydd gyntaf oedd athro Gymraeg a Lladin yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Aberdâr, ond yn 1964 fe'i penodwyd yn Bennaeth y Gymraeg nôl ar aelwyd Ystalyfera lle bu wrth ei fodd nes ymddeol yn 1993. Er hynny, parhaodd i weithio fel tiwtor yn Adran Gymraeg Coleg Prifysgol Abertawe dan gyfarwyddyd ei gyfaill Hywel Teifi Edwards.

Yn 1964 priododd John â Brenda, nyrs a bydwaig o Ystalyfera, ac ymgartrefodd y ddau yng Nghlydach.

Roedd yn athro Gymraeg o reddf. Ganol yr 1960au, gwnaeth safiad yn erbyn pennaeth Ysgol Ramadeg Ystalyfera i gefnogi sefydlu ysgol gyfun ddwyieithog yno, ac ymgyrchodd dros sefydlu Ysgol Gymraeg Pontardawe. Mae'r cannoedd o negeseuon cyn-ddisgyblion John a welwyd ar Facebook yn tystio i'w boblogrwydd fel athro gofalgwr a mentor pobol ifainc.

Tu fas i'r ysgol, John oedd calon Gymraeg y Cwm. Fel y canodd un bardd iddo, 'Wynneb a llais ymhob lle, / Onid ti yw Cwm Tawe?' Yn yr 1970au John oedd prif sefydlydd Cylch Cinio Cymraeg Cwm Tawe, yn un o sefydlwyr papur bro Y Llais, ac yn un o'r golygyddion trwy'r

degawdau. Wedi tro'r ganrif mynnodd John gychwyn pwyllgor i gynnal cystadleuaeth ysgolion ar gyfer Gwobr Goffa ei ffrind Dafydd Rowlands. Daeth yn aelod selog o ddosbarth cynganedd Cwm Tawe pan ffurfiwyd hwnnw yn 2009, a datblygodd i fedru cyfansoddi ei hun. Dyma'i englyn i 'Dafydd Iwan':

Un o fois gwenfflam Brynaman, - wedyn
Bu'n troedio yr Aran ;
Selog a doniog ei dân,
A'i enw e' ? Dafydd Iwan!

Roedd yn undebwr greddf. Ymunodd ag UCAC wrth ddechre dysgu a daeth yn flaengar yn yr Undeb yng Ngorllewin Morgannwg. Yn 1984 fe'i hetholwyd yn Llywydd yr Undeb, a chafodd hwyl ar flwyddyn o deithio Cymru a chefnogi ei gyd-athrawon.

Roedd chwaraeon yn obsesiwn gan John. Ysgrifennydd clwb rygbi Cwmllynfell am flynyddoedd, cefnogwr tanbaid i'r Gwynion a thim criced Morgannwg ar gae San Helen, a nes ymlaen i'r Gweilch. Oherwydd y brwdfrydedd hwn roedd yn hawdd tynnu coes John. Byddai dim ond awgrymu taw'r Sgarlets oedd y tim gorau yng Nghymru yn pryfocio ffrwydrad o foliant i'r Gweilch!

Hollbwysig i John oedd ei ffydd Gristnogol. Fe'i codwyd yn Eglwys Brynlllynfell, a wedi ymgartrefu yng Nghlydach ymunodd e a Brenda ag Eglwys Annibynwyr Hebron yno. Fe'i gwnaed yn ddiakon yno, ac wedyn gwnaeth dyn rhyfeddol o dros hanner canrif fel ysgrifennydd diwyd, nes rhoi ei gefnogaeth i uno capeli Clydach i ffurfio Capel y Nant yn 2008. Roedd ei ymroddiad i fywyd Capel y Nant yn anferth, yn yr oedfaon a'r Pwyllgor Gwaith, ac fel trefnydd a thrysorydd y gweithgarwch cymdeithasol yno.

Ond cariad mwya John oedd ei deulu. Cynhaliwyd priodas Brenda a John am chwedeg un o flynyddoedd dedwydd gan eu cariad i'w gilydd a gofal tyner un dros y llall. Eu merch Catrin oedd cannyll llygad John, a phan aned ei wyres Rosa roedd ei gwpan yn gorlifo â llawenydd. Dilynodd John drywydd y ddwy trwy ysgol a choleg â balchder mawr, a chroesawyd Rob, gŵr Catrin, i'r teulu'n gynnes.

Wrth heneiddio, dioddefodd John fwy nag un salwch a damwain gas, ond brwydrodd yn ôl o bob anap – roedd gwydnwch glowyr Cwmllynfell yn ei gyfansoddiad!

Er argyhoeddiadau dwfn John, roedd ynddo anwyldeb personoliaeth ac nid ychydig o sentimentalrwydd. Byddai'n llawenhau yn llwyddiant ei ddisgyblion a'i ffrindiau. Gŵr cadarnhaol ymhob dim.

Roedd John yn ymgorfforiad o'r bwrlwm Cymraeg ar ei orau. Welwn ni mo'i debyg eto. Diolchwn am ei gyfraniad anferth - a'r atgofion!